Cywaith
Tŷ Silyn, Y Sgwâr, Penygroes,
Caernarfon, Gwynedd. LL54 6LY

Mae Cywaith yn is-gwmni i Gymdeithas Tai Eryri. Cywaith is a subsidiary of Cymdeithas Tai Eryri.

CROESO

Rydym yn chwilio am Gadeirydd a dau aelod annibynnol i ymuno â Bwrdd Rheoli Cywaith.

Yn ddelfrydol byddwn yn recriwtio unigolion gyda phrofiad uniongyrchol o weithgarwch adfywio cymunedol neu ddatblygu economaidd ar gyfer y tair swydd. Yn sicr, rydym yn chwilio am frwdfrydedd, angerdd ac ymroddiad.

Gofynnwn am tua 10 awr y mis o'ch hamser (neu 15 awr gan y Cadeirydd).

Ni fyddwn yn cynnig tâl i aelodau bwrdd Cywaith. Ond nid yw hynny'n golygu y byddwch yn gwneud y gwaith am ddim…

Drwy fod yn rhan o'n tîm byddwch yn derbyn **hyfforddiant** ar amrywiaeth o feysydd, byddwn yn ad-dalu unrhyw **gostau** ac yn rhoi cyfle i chi gael **dylanwad** uniongyrchol ar benderfyniadau yn ymwneud â chymunedau lleol.

Mae rhai pobl yn cyfrannu eu hamser rhydd ar fwrdd er mwyn gwella'u **sgiliau**, rhai er mwyn teimlo bod eu **harbenigedd** yn cael ei werthfawrogi, rhai er mwyn gwella'u **rhagolygon** gyrfaol, rhai er mwyn cael gwneud **gwahaniaeth** a rhai am ei fod yn rhoi lot o **fwynhad** a hwyl iddynt.

Beth bynnag fo'ch rheswm chi dros fod â diddordeb yn y gwaith, gobeithiwn yn fawr y byddwch yn cyflwyno cais. Y dyddiad cau ar gyfer dychwelyd y ffurflen gais yw 19 Mawrth 2010.

Cywaith
Tŷ Silyn, Y Sgwâr, Penygroes,
Caernarfon, Gwynedd. LL54 6LY

Mae Cywaith yn is-gwmni i Gymdeithas Tai Eryri. Cywaith is a subsidiary of Cymdeithas Tai Eryri.

BETH YW CYWAITH?

Cwmmi adfywio cymunedol yw Cywaith. Mae'n fenter gymdeithasol, nid-er-elw, a sefydlwyd er mwyn cefnogi datblygiad economaidd cymunedau gwledig yng Ngwynedd a Môn.

Prif swyddogaethau'r cwmni yw:

- datblygu asedau lleol er budd y gymuned leol (a bydd Cywaith yn berchennog ar yr asedau hynny)
- hyrwyddo a defnyddio asedau lleol ar gyfer amrywiaeth o ddefnyddiau sy'n gysylltiedig ag adfywio a budd cymunedol
- gweithredu fel hwylusydd i grwpiau lleol a busnesau cymunedol i sicrhau asedau lle nad ydynt yn medru gwneud hynny eu hunain (oherwydd prinder cyllid ac adnoddau, neu o ddewis)
- gweithredu fel hwylusydd a noddwr cyllido ar gyfer gweithgareddau adfywio lleol
- gweithredu fel canolbwynt a budd-ddeiliad allweddol ar gyfer adfywio lleol
- sicrhau fod gweithgareddau adfywio lleol wedi eu cydgysylltu'n llawn gydag agweddau hyfforddiant, cyflogaeth a chynlluniau cynaladwyaeth

Mae swyddogaethau Cywaith yn:

Strategol: Gweithio mewn partneriaeth â budd-ddeiliaid o bob math a ffurfio cynlluniau gweithredu sy'n adnabod prosiectau allweddol.

Tactegol: Datblygu hyrwyddwyr prosiect o fewn grwpiau lleol a blaenoriaethu prosiectau.

Gweithredol: Cefnogi'r broses o ddatblygu prosiectau, gweithredu fel noddwr prosiect, monitro prosiectau a gweithredu fel landlord i'r asedau a ddarparwyd.

Caiff Cywaith ei lywodraethu gan y Bwrdd Rheoli. Nid oes bwriad i'r cwmni fod yn gyflogwr yn y tymor byr. Bydd Cymdeithas Tai Eryri yn cyflogi Swyddog Prosiect ac yn gwerthu ei amser i Cywaith.

Cywaith
Tŷ Silyn, Y Sgwâr, Penygroes,
Caernarfon, Gwynedd. LL54 6LY

Mae Cywaith yn is-gwmni i Gymdeithas Tai Eryri. Cywaith is a subsidiary of Cymdeithas Tai Eryri.

PAM SEFYDLU CYWAITH?

Mae Cymdeithas Tai Eryri wedi gweithredu ar draws Gwynedd ac Ynys Môn ers 30 mlynedd yn darparu tai fforddiadwy, cynnig cefnogaeth i bobl fregus a hwyluso gweithredu cymunedol er mwyn lleihau anfantais cymdeithasol.

Er bod tueddiad, o bosibl, i feddwl mai darparu cartrefi yn unig yw rôl sefydliadau fel Cymdeithas Tai Eryri, mae llawer o gymdeithasau tai yn gweithredu tu hwnt i'r maes tai erbyn hyn. Ers diwedd y 1990au buont yn ehangu eu gwaith i gynnwys **adnewyddu cymdogaeth**, **adfywio**, **hyfforddiant**, **cyflogaeth** a datblygiad yr **economi gymdeithasol**.

Mae hwn yn ddatblygiad dealladwy. Mae'r cyswllt rhwng tai ac adfywio yn nes nag a fu erioed o'r blaen ac yn sgil gofynion gan y Cynulliad megis Safon Ansawdd Tai Cymru bu gwelliant sylweddol yn y modd y llwyddodd cymdeithasau tai i gefnogi cadwyni cyflenwi a chynhyrchwyr lleol, targedu hyfforddiant a recriwtio.

Hefyd mae gwell dealltwriaeth o'r ffaith fod llawer o denantiaid cymdeithasau tai ar incwm isel, yn byw mewn ardaloedd o amddifadedd uchel a bod canran uchel yn perthyn i grwpiau nad ydynt yn economaidd weithgar.

Roedd sefydlu is gwmni adfywio cymunedol yn gam rhesymegol ymlaen i Cymdeithas Tai Eryri, felly.

Bydd **Cywaith** yn cyflawni gweithgarwch ehangach na'r Gymdeithas gan gychwyn trwy ddatblygu asedau lleol ar gyfer amrywiaeth o ddefnyddiau cymdeithasol, economaidd a diwylliannol.

Ond rydym yn sylweddoli nad oes modd delio ag agweddau adfywio drwy fuddsoddi mewn brics a mortar yn unig. Mae hynny ar ei ben ei hun yn debygol o fethu. Rhaid cymryd agwedd mwy holistaidd i sicrhau fod y manteision economaidd, cymdeithasol a chymunedol yn cael eu cyd-gysylltu a'u gwireddu. Gobeithiwn, maes o law, y bydd Cywaith yn datblygu rôl fel hwylusydd a noddwr gweithgarwch adfywio lleol o bwys.

Disgrifiad Swydd – Cadeirydd

Manylion y swydd	
Teitl y swydd:	Cadeirydd
Prif bwrpas y swydd:	
Rhoi arweiniad i'r Bwrdd Rheoli a gweithredu fel llysgennad i Cywaith.	
Cyfrifoldebau a dyletswyddau	

Bydd y Cadeirydd yn ceisio sicrhau:

- Fod pob cyfarfod o'r Bwrdd a holl gyfarfodydd cyffredinol y cwmni'n cael eu cynnal yn effeithlon;
- Fod safonau ymddygiad yn briodol drwy'r amser, a bod cyfleoedd i bob aelod o'r Bwrdd fynegi barn;
- Fod y cwmni'n anwytho, hyfforddi, darparu cyfleoedd datblygu a chefnogi pob aelod o'r Bwrdd;
- Fod perthynas waith adeiladol yn cael ei sefydlu gyda Chymdeithas Tai Eryri, fel rhiant sefydliad y cwmni, a bod y Bwrdd yn ei gyfanrwydd yn gweithio'n adeiladol gyda'r staff uwch;
- Fod cyfraniad aelodau unigol o'r Bwrdd yn cael ei werthuso er mwyn adnabod cryfderau a gwendidau'r Bwrdd, prinder sgiliau ac anghenion hyfforddiant yr aelodau fel unigolion, ac er mwyn gwella perfformiad y Bwrdd yn ei gyfanrwydd;
- Fod y Bwrdd yn dirprwyo awdurdod digonol drwy'r sefydliad i'r cwmni fedru gweithredu ei fusnes yn effeithiol rhwng cyfarfodydd y Bwrdd, a bod y Bwrdd yn monitro'r defnydd a wneir o'r pwerau dirprwyedig yma;
- Fod y Bwrdd yn ceisio, ac yn derbyn, cyngor proffesiynol ac annibynnol lle bo angen;
- Fod y cwmni'n cael ei gynrychioli'n briodol;
- Fod y Bwrdd yn cytuno ar ddyletswyddau a chyfrifoldebau'r Is-Gadeirydd;
- Fod materion y cwmni'n cael eu cynnal yn briodol, yn unol â'r codau perfformiad a'r priodoldeb disgwyliedig.

Gofynion y person:

Bydd y Cadeirydd yn gofalu fod y cwmni'n cael ei gynrychioli yn ôl yr angen, e.e. mewn cyfarfodydd cyhoeddus, digwyddiadau cyhoeddusrwydd, cyfarfodydd gydag awdurdodau lleol a chyrff statudol eraill. Bydd hefyd yn gweithredu fel llysgennad y cwmni.

Bydd ef/hi:

- yn ymwybodol o waith, nodau ac amcanion Cywaith ac yn eu hyrwyddo'n egnïol;
- yn parhau i fod â gwybodaeth gyfredol am ddatblygiadau o fewn y sector adfywio cymunedol;
- yn dangos ymrwymiad i weithio er lles y cymunedau o fewn ardal weithredol Cywaith;
- yn mynychu a siarad mewn digwyddiadau cyhoeddus;
- yn cynrychioli'r Bwrdd mewn ffordd broffesiynol wrth ymwneud â Chymdeithas Tai Eryri, aelodau, cwsmeriaid a'r cyhoedd;
- yn gwneud datganiadau i'r cyfryngau;
- yn gweithredu mewn ffordd a fydd yn ennyn parch i waith Cywaith, a bob amser yn cefnogi gwaith y cwmni.

Y medrau a'r nodweddion angenrheidiol

- Sgiliau arwain – yn cynnwys y gallu i arwain cydweithwyr fel eu bod yn canolbwyntio ar faterion strategol allweddol, a'r gallu i ennill eu hyder;
- Sgiliau cadeirio – y gallu i sicrhau fod materion allweddol yn cael eu trafod yn ddigonol, a bod pob barn yn cael ei chlywed o fewn amserlen briodol;
- Gweithredu'n ddoeth a diplomyddol – yn cynnwys delio mewn modd sensitif â barn a theimladau pobl eraill, a llwyddo i gael y maen i'r wal drwy gyd-drafod a chyfaddawdu;
- Sgiliau rheoli pobl - y gallu i gael y gorau ohonynt, gan ddelio'r un pryd â materion anodd a rheoli perfformiad;
- Bod yn ddiduedd a theg gan barchu cyfrinachedd;
- Sgiliau cyfathrebu da, yn cynnwys y gallu i siarad mewn cyfarfodydd cyhoeddus a chymryd rhan mewn cyfweliadau radio/teledu.

Profiad a gwybodaeth angenrheidiol

- Tystiolaeth o fod â rhan yn llywodraethiad effeithiol menter gymdeithasol neu sefydliad arall trydydd sector;
- Ymwybyddiaeth o ofynion gweithredu mewn ardal wledig;
- Profiad o weithgaredd adfywio cymunedol a/neu ddatblygu economaidd;
- Dealltwriaeth o'r cyd-destun polisïau, yn lleol a chenedlaethol.

Disgrifiad Swydd – Aelod o'r Bwrdd

Manylion y swydd	
Teitl y swydd	Aelod o'r Bwrdd
Prif bwrpas y swydd	
Sicrhau fod cwmni Cywaith yn gweithredu'n unol â'i amcanion a'i ddogfen llywodraethu.	
Cyfrifoldebau'r swydd	

Cyfrifoldebau personol:

- Cyfrannu at benderfyniadau'r Bwrdd a rhannu'r cyfrifoldeb am bob penderfyniad a wneir ganddo
- Anelu i fynychu o leiaf 75% o gyfarfodydd y Bwrdd
- Darllen papurau'r Bwrdd cyn dod i gyfarfodydd
- Mynychu'r sesiynau hyfforddi a drefnir ar gyfer aelodau'r Bwrdd
- Bod yn aelod o unrhyw banel apêl, cwyn, disgyblaeth a/neu banel cyfweld yn ôl yr angen
- Cynrychioli Cywaith mewn ffordd gadarnhaol wrth ymwneud â'r byd tu allan
- Parhau i fod yn gyfarwydd â datblygiadau yn y maes adfywio cymunedol

Cyfrifoldebau ar y cyd ag aelodau eraill y Bwrdd:

- Cyfrannu at gynllun strategol, nodau ac amcanion Cywaith
- Sefydlu polisïau a chynlluniau i wireddu'r amcanion hynny
- Cymeradwyo'r cyfrifon bob blwyddyn cyn iddynt gael eu cyhoeddi a chymeradwyo'r gyllideb yn flynyddol
- Cymeradwyo polisïau a gwneud penderfyniadau ar bob mater sy'n creu risg ariannol arwyddocaol i Cywaith, neu sy'n effeithio ar faterion perthnasol o egwyddor
- Monitro perfformiad y cwmni mewn perthynas â'r cynlluniau, amcanion a chyllidebau a gymeradwywyd
- Gwneud yn siŵr fod materion y cwmni'n cael eu cynnal mewn dull ariannol hyfyw, mewn ffordd gyfreithlon ac yn unol â'r arferion gorau disgwyliedig o ran safonau a phriodoldeb
- Sefydlu a goruchwylio fframwaith dirprwyo a systemau rheoli
- Penodi (a diswyddo os oes angen) y Prif Weithredwr
- Cwrdd ag oblygiadau cyfreithiol y cwmni fel cyflogwr, a derbyn cyngor yn ôl yr angen

Gofynion y person
Y medrau a'r nodweddion angenrheidiol • Ymrwymiad i weithio er mwyn adfywio cymunedau ardal weithredol Cywaith • Y gallu i gyfrannu'n llawn ac onest at waith y Bwrdd yn ei gyfarfodydd a'i bwyllgorau • Y gallu i ddod i benderfyniadau cadarn gan ddangos gweledigaeth strategol ac ymarferol, defnyddio adnoddau'n effeithiol a rhoi sylw llawn i'r fframwaith cyfreithiol ac ariannol y gweithreda'r Bwrdd o'i fewn. • Parodrwydd i gefnogi gwaith cwmni Cywaith ar sail wirfoddol • Parodrwydd i dderbyn barn y mwyafrif • Bod yn agored ac atebol i gymunedau lleol • Cefnogi gwerthoedd y cwmni, yn cynnwys ei ymrwymiad i ddefnyddio'r Gymraeg. **Profiad a gwybodaeth angenrheidiol** • Dealltwriaeth o safonau llywodraethiad menter gymdeithasol neu sefydliad arall trydydd sector • Ymwybyddiaeth o ofynion gweithredu mewn ardal wledig • Profiad o weithgaredd adfywio cymunedol a/neu ddatblygu economaidd • Dealltwriaeth o'r cyd-destun polisïau, yn lleol a chenedlaethol.

FFURFLEN GAIS

Teitl y Swydd	Cadeirydd □ Aelod Bwrdd □ (ticiwch y bocs perthnasol)

MANYLION PERSONOL

Enw Cyntaf	
Cyfenw	
Cyfeiriad	
Côd Post	
Rhif Ffôn	Cartref: Gwaith: Symudol:
Cyfeiriad e bost	

SWYDD BRESENNOL

Cyflogydd	
Teitl eich Swydd	
Dyddiad Cychwyn	
Disgrifiad byr o'ch gwaith â'ch dyletswyddau:	

SWYDDI BLAENOROL

1.	Cyflogydd	
	Swydd	
	Dyddiad Cychwyn	
	Dyddiad Gorffen	

2.	Cyflogydd	
	Swydd	
	Dyddiad Cychwyn	
	Dyddiad Gorffen	

3.	Cyflogydd	
	Swydd	
	Dyddiad Cychwyn	
	Dyddiad Gorffen	

GWYBODAETH YCHWANEGOL

Canolwyr:

1. Enw	
Cyfeiriad	
Rhif Ffôn Dydd	
Rhif Ffôn Nos	

2. Enw	
Cyfeiriad	
Rhif Ffôn Dydd	
Rhif Ffôn Nos	

PROFIAD

Nodwch unrhyw wybodaeth berthnasol i gefnogi eich cais e.e. profiad llywodraethu yn y sector mentrau cymdeithasol, profiad o weithgarwch adfywio cymunedol neu ddatblygu economaidd

DATGANIAD CYFLE CYFARTAL

(Rhowch ✓ yn y man priodol)

A ydych yn ystyried bod gennych anabledd?	YDW		NAC YDW	
A ydych wedi eich cofrestru yn anabl?	YDW		NAC YDW	
Rhif Cofrestredig				

Beth yw natur eich anabledd?	
Pa anghenion penodol sydd ei angen arnoch adeg y cyfweliad neu ar gyfer gwaith?	

DATGELU PERTHYNAS

Er mwyn sicrhau fod y Gymdeithas yn gweithredu yn unol ag Atodlen 1, Rhan 1, Deddf Tai 1996, rhaid i bob ymgeisydd am swydd ddatgan os ydynt yn perthyn yn agos i unrhyw aelod arall o staff neu aelod o Bwyllgor y Gymdeithas, neu berchnogion, partneriaid neu gyfarwyddwyr sefydliadau y mae gan y Gymdeithas berthynas gytundebol masnachol a hwy.

Os yn berthnasol, datgelir isod os gwelwch yn dda gan nodi'r berthynas:

……..

……

……

DATGANIAD

Rwy'n datgan fod y manylion â'r ffeithiau uchod yn gwbl gywir hyd y gwn i:

Llofnod	
Dyddiad	

Dychwelwch at sylw:

Walis George
Prif Weithredwr,
Cymdeithas Tai Eryri,
Tŷ Silyn
Y Sgwâr
Penygroes
Gwynedd LL54 6LY